GWELLIANT CYMRU IMPROVEMENT CYMRU

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

CRYNODEB GWEITHREDOL

Gwella Gyda'n Gilydd Dros Gymru

Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol (MatNeoSSP) yng Nghymru

Adroddiad Cyfnod Darganfod

GORFFENNAF 2023

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio tirwedd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yng Nghymru ac roedd yn eang ei gylch gwaith, gan gynnwys safbwyntiau manwl am ddiwylliant gwaith, arweinyddiaeth a dysgu ochr yn ochr â'r gweithlu a mesurau canlyniadau clinigol ar gyfer mamau a babanod ledled y wlad. Mae canfyddiadau'r Cyfnod Darganfod hwn o waith, a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Chwefror 2023, a'r argymhellion yn adlewyrchu'r cwmpas eang hwnnw. Wrth symud ymlaen, mae'n rhaid inni weithio fel un tîm amenedigol, i wella gofal i fenywod a theuluoedd.

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru mai 1,000 diwrnod cyntaf bywyd, o'r cenhedlu hyd at ddwy flwydd oed, yw'r amser mwyaf hanfodol ar gyfer dylanwadu ar ganlyniadau iechyd i unigolion a chenhedloedd. Mae cael pethau'n iawn ar ddechrau bywyd yn sylfaen bwysig ar gyfer iechyd a lles i bob un ohonom yng Nghymru.

Mae'r dull a ddefnyddiwyd gennym yn y gwaith hwn wedi'i wreiddio mewn ymholi gwerthfawrogol a Fframwaith y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd ar gyfer Gofal Diogel, Dibynadwy ac Effeithiol. Gwelsom enghreifftiau o arfer da a rhagorol mewn gwasanaethau ledled Cymru a thu hwnt, y gellid eu rhannu a'u ehangu i wella gwasanaethau ledled y wlad.

Nid adolygiad o wasanaethau oedd y gwaith hwn, ond drwy gyfarfod a chyfathrebu â thimau mamolaeth a newyddenedigol, rydym wedi nodi rhai cyfleoedd i wella gofal a llywodraethiant. Gofal diogel a theg yw'r nod ym mhob gwasanaeth, ac mae wedi bod yn galonogol gweld rhai prosiectau gwella rhagorol eisoes ar y gweill.

Mae heriau iechyd cyhoeddus i iechyd a lles teuluoedd yng Nghymru, ac mae rhai ohonynt yn gofyn am waith a fydd y tu allan i gwmpas gofal y GIG. Ni all y GIG yn unig fynd i'r afael â lefelau uchel o ordewdra ac ysmygu, a phocedi o amddifadedd. Fodd bynnag, mae camau y gall ein gwasanaeth iechyd eu cymryd i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i fenywod a babanod.

Mae heriau difrifol o ran y gweithlu hefyd, nad ydynt yn unigryw i Gymru, a fydd yn gofyn am atebion creadigol a buddsoddiad. Ein gweithlu yw sylfaen y gofal a ddarparwn. Mae staffio priodol yn sail i bopeth yr ydym am ei gyflawni ar gyfer menywod a theuluoedd yn ein gofal. Mae lles staff, cymorth i staff a chadw staff yn flaenoriaethau allweddol yn ogystal â recriwtio.

Mae'r blaenoriaethau a nodwyd gennym yn gofyn am gamau gweithredu personol, lleol, rhanbarthol a chenedlaethol – ynghyd â newid systemig, dull cydlynol parhaus o wella, ac arweinyddiaeth gydweithredol gref. Cyflwynir yr adroddiad mewn categorïau sy'n seiliedig ar ddogfen Llywodraeth Cymru: Gofal Mamolaeth yng Nghymru: gweledigaeth 5 mlynedd ar gyfer y dyfodol (2019-2024), gyda blaenoriaethau perthnasol ar gyfer gwella yn yr adrannau hynny. Darperir tabl manwl o'r holl **flaenoriaethau ar gyfer gweithredu** a argymhellir ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae'r prif flaenoriaethau, y dylid eu gweithredu cyn gynted â phosibl, wedi'u hamlygu mewn gwyrddlas a'u cynnwys yn y crynodeb hwn.

Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

1. Y Gydweithredfa Gofal Diogel

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Datblygu Cydweithredfa Gofal Diogel ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol a dwyn ynghyd grwpiau cyfeirio arbenigol sy'n cynnwys clinigwyr, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru i ysgogi gwelliannau mewn gofal ar draws y gwasanaeth.

2. Arweinyddiaeth

Adnabod a chefnogi arweinyddiaeth gref, dosturiol.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Cynrychiolaeth ar y pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar gyfer y tîm 'cwad' amenedigol, gyda Chyfarwyddwr Bydwreigiaeth, neonatolegydd ymgynghorol ac arweinwyr diogelwch obstetryddion ymgynghorol ac uwch nyrsys newyddenedigol yn cael eu cynrychioli.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Rowndiau cerdded strwythuredig rheolaidd i swyddogion gweithredol.

3. Gweithlu

Gwelsom heriau sylweddol ymhlith y gweithlu, gyda thimau dan straen yn sgil bylchau a darpariaeth ad hoc, a oedd yn effeithio ar les, addysg, hyfforddiant, ymchwil a gwasanaethau eraill.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Strategaeth gweithlu sy'n sicrhau'r niferoedd gorau posibl o staff medrus a brwdfrydig ochr yn ochr â modelau gofal newydd yn y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Dylai GIG Cymru sicrhau y darperir cymorth seicolegol, ym mhob adran famolaeth ac uned newyddenedigol ar gyfer yr holl staff mamolaeth a newyddenedigol.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Cefnogaeth weinyddol ar gyfer gofal clinigol a hyfforddiant staff.

4. Gwaith tîm amenedigol

Dylai timau sy'n cydweithio hyfforddi gyda'i gilydd.

Mae PROMPT (Hyfforddiant Amlbroffesiynol Obstetrig Ymarferol) Cymru eisoes yn arwain y ffordd o ran hyfforddiant amlddisgyblaethol i staff mamolaeth.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Mae angen blaenoriaethu amser a lle ar gyfer hyfforddiant.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Dylid cynnwys neonatoleg mewn hyfforddiant amlddisgyblaethol ochr yn ochr â hyfforddiant NLS (Cynnal Bywyd Newyddenedigol) lleol.

5. Beichiogrwydd mwy diogel

Bydd cefnogi menywod ag ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl yn ystod beichiogrwydd ac yn lleihau anghydraddoldebau. Mae'n arbennig o bwysig cydnabod a darparu gofal ychwanegol i fenywod â chyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes, cymhlethdodau obstetreg blaenorol, gordewdra ac ysmygu.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Tynnu sylw at ganllawiau cenedlaethol yn ymwneud â beichiogrwydd a genedigaeth ar draws GIG Cymru, gan wella mynediad a lleihau amrywiadau trwy wella ansawdd.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Swyddi bydwreigiaeth o fewn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) ar gyfer cyngor clinigol, gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth. Cefnogi datblygiad gwasanaethau ffôn cenedlaethol 'Llinell Ffôn Esgor' a 'Llinell Ffôn Brysbennu' ac addysg WAST.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Sefydlu Rhwydwaith/Rhwydweithiau Meddygaeth Mamol gan sicrhau penodiad un neu fwy o feddygon obstetreg yng Nghymru.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Adnewyddu ymgyrch Beichiogrwydd Mwy Diogel GIG Cymru sy'n ymgorffori camau gweithredu o fersiwn 3 o Bwndel Gofal Achub Bywydau Babanod. Bydd hyn yn gofyn am ariannu a gweithredu gwasanaethau sonograffeg, argaeledd cardiotocograffeg cyfrifiadurol (cCTG), profion Ffactor Twf y Brych (PLGF) mewn achosion tybiedig o gyneclampsia a ffibronectin meintiol y ffetws, i amlapio pecyn gofal PERIPrem (Rhagoriaeth Amenedigol i Leihau Anafiadau mewn Genedigaeth Gynamserol) Cymru.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Dylid adolygu ac optimeiddio modelau parhad o ran gofal bydwreigiaeth.

6. Cefnogi teuluoedd er mwyn iddynt allu aros gyda'i gilydd

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Mae cadw teuluoedd gyda'i gilydd yn golygu gweithio i osgoi derbyniadau diangen, cefnogi teuluoedd pan fydd baban yn cael ei dderbyn, a gweithredu modelau sy'n galluogi gofal yn y cartref yn y gymuned.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Buddsoddi mewn Gofal Trosiannol ym mhob uned famolaeth, sy'n cyd-fynd â safonau cenedlaethol.

7. Gwella safonau clinigol a chanlyniadau i fabanod ar ddechrau bywyd.

Gofal newyddenedigol ar sail tystiolaeth gyda'r nod o leihau marwolaethau ac afiachusrwydd drwy:

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

gwneud y mwyaf o fwydo ar y fron a'i gynnal, yn enwedig ar gyfer babanod ar unedau newyddenedigol,

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

mynd i'r afael â heintiau a

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

mynd i'r afael â mesurau sy'n lleihau clefyd cronig yr ysgyfaint.

8. Gofal profedigaeth

Mae rhai teuluoedd yn profi marw-enedigaeth neu farwolaeth baban yn fuan ar ôl cael ei eni. Yn ogystal â gweithio i wella canlyniadau mamolaeth a newyddenedigol, sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cefnogi drwy brofedigaeth.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

GIG Cymru i weithredu'r Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gofal mewn Profedigaeth.

9. Strwythurau llywodraethu clinigol

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Safoni rolau llywodraethu o fewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, gyda goruchwyliaeth uwch a chydweithio wedi'i optimeiddio ag adrannau gwella ansawdd.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Safoni dangosfyrddau gwyliadwriaeth ansawdd amenedigol lleol i alluogi gweithgaredd amser real/mesur a monitro canlyniadau i gefnogi gwelliannau lleol.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Alinio meysydd Datix GIG Cymru ag Offer Sbarduno cenedlaethol cytunedig a dadansoddi data ar lefel Bwrdd lechyd ac ar lefel genedlaethol i nodi themâu ac arwain gwelliant parhaus.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Comisiynu adolygiad annibynnol allanol ar gyfer pob achos o farwolaeth mamau; marw-enedigaeth intrapartum cyfnod llawn; marwolaeth newyddenedigol cynnar >37 wythnos; ac anaf i'r ymennydd amenedigol.

10. Cyd-gynllunio gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn strategol

Gan fod gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn gyd-ddibynnol, mae'n bwysig bod adolygiadau o gynllunio gwasanaethau a chyllid yn cael eu cynnal ar y cyd.

BLAENORIAETH ALLWEDDOL:

Dylid cydgysylltu gwaith cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol 'o got i gymuned' a chynnwys cynrychiolaeth o blith holl aelodau'r tîm amenedigol.

Dim ond rhan o'r daith i sicrhau gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel i fenywod a'u babanod ledled Cymru yw'r prif flaenoriaethau hyn. Nid yw'r holl flaenoriaethau eraill yn llai pwysig o bell ffordd ac mae'n hanfodol eu hystyried ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn ysgogi canlyniadau gwell i deuluoedd ledled Cymru.